

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 13 Mehefin, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood a G. Chapman, M. Evans and N. Ireland (Aelodau Lleyg)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr G. John a S. Wyndham and I Phillips (Archwilio Cymru).

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi G. Chapman (Aelod Lleyg) yn Gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol

EITEM AGENDA . PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – N. Ireland (Aelod Lleyg) yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 6. CYTUNDEB RHEOLI HAMDDEN – ADRODDIAD PERFFORMIAD BLWYDDYN 9 (CYF) –

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cynnwys yr adroddiad eglurhaol a pherfformiad Contract Legacy Leisure ar gyfer Blwyddyn 9, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad, yn cael ei nodi.

(2) BOD adroddiad perfformiad Blwyddyn 10 ar gyfer y contract Rheoli Hamdden yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod hydref 2022 (Medi).

(3) BOD y camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru yn cael eu nodi a bod y dull a gynigir ar gyfer gweddill cyfnod y contract yn cael ei gymeradwyo.

(4) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried mewn perthynas â'r materion a godwyd gan Archwilio Cymru.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad eglurhaol ac atodedig mewn perthynas â pherfformiad y contractwr yn ystod cyfnod Blwyddyn 9.

(2) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y Contract Rheoli Hamdden.

(3&4) Sicrhau bod y Contract Rheoli Hamdden yn adlewyrchu canfyddiadau Adroddiad Archwilio Cymru, a bod camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i roi sicrwydd bod y materion a nodwyd gan Archwilio Cymru yn cael eu gweithredu.

EITEM AGENDA 7. CYNLLUN ARCHWILIO 2022 ARCHWILIO CYMRU
(PC/SA151) –

PENDERFYNWYD – BOD cynnwys Cynllun Archwilio Cymru 2022 yn cael ei nodi.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL
BLYNYDDOL (PGAMR) -

PENDERFYNWYD – AR ôl ystyried yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2021/22 gan gynnwys Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor, rhoddir ystyriaeth briodol i sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.

Rhesymau dros benderfyniadau

Rhoi sylw i'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod a chynnwys yr adroddiad.

EITEM AGENDA 9. SIARTER GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL
RHANBARTHOL 2022/23 (PGAMR) -

PENDERFYNWYD – I GYMERADWYO Siarter Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2021/22 fel yr atodir yn Atodiad A.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 10. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL FLYNYDDOL DDRAFFT A CHYNLLUN SEILIEDIG AR RISG 2022/23 (PGAMR) -

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft (Atodiad A yr adroddiad) a'r Cynllun Archwilio ar Sail Risg Blynyddol drafft ar gyfer 2022/23 (Atodiad B yr adroddiad).

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 11. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL WEDI'I DIWEDDARU (PGAMR)

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi.
- (2) BOD y rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf, 11 Gorffennaf, 2022 yn cael ei gymeradwyo.
- (3) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad olrhain argymhellion Archwilio ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1&2) Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwybodol o gynnydd y rhaglen waith arfaethedig ac yn cael gwybod amdano.

(3) Caniatáu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio olrhain y broses o weithredu argymhellion a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.